Y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o Ran Galluedd Meddyliol

Cwestiynau Cyffredin

1. Pwy sy'n gallu cael ei atgyfeirio at y Gwasanaeth EAGM?

Mae pawb yn gallu cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth EAGM; fodd bynnag rhaid i'r gwasanaeth EAGM gael ei gyfarwyddo hefyd gan y penderfynwr dan sylw. Pan mae'r atgyfeiriad yn cael ei wneud bydd Advocacy Experience yn gorfod cael enw a manylion y Penderfynwr gan mai hwy, sef Advocacy Experience, fydd y prif gysyllbwynt ar gyfer y gwasanaeth EAGM.

2. Pwy yw'r Penderfynwr?

Y penderfynwr yw'r person sy'n gwneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn sydd heb alluedd. Y penderfynwr yw'r person sy'n rhoi triniaeth i'r unigolyn neu sy'n trefnu i rywun gael ei leoli, mewn achosion lle mae'r unigolyn yn bodloni meini prawf yr EAGM.

3. A yw'r EAGM yn benderfynwr?

Nac ydyw. Nid yw'r EAGM yn gwneud penderfyniadau ac nid yw'n cynnig atebion nac yn dewis o blith y cynigion sydd ar gael i'r unigolyn. Nid yw'r EAGM yn gwneud penderfyniadau ar ran y cleient.

4. Pryd mae hi'n amhriodol ymgynghori â ffrindiau neu'r teulu?

Yn gyffredinol, dim ond i unigolyn sydd heb alluedd ac sydd heb unrhyw ffrindiau na theulu i'w gefnogi y mae'r Gwasanaeth EAGM ar gael; fodd bynnag, mae rhai eithriadau. Mae'r Ddeddf yn dweud hyn; os yw'r ffrindiau a'r teulu yn anaddas i ymgynghori â hwy yna mae gan yr unigolyn yr hawl i gael EAGM.

Nid oes modd rhoi cyfarwyddyd swyddogol ynghylch y sefyllfaoedd lle gallai ffrindiau neu'r teulu fod ar gael ond sy'n cael eu hystyried yn amhriodol am fod rhaid ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod. Fodd bynnag, cynigir y cyfarwyddyd cyffredinol ynghylch sefyllfaoedd lle gallai eithriad gael ei ystyried yn rhesymol.

Efallai y bernir bod ymgynghori â ffrindiau neu'r teulu yn amhriodol os:

- Nad ydynt ar gael, efallai o ganlyniad i bellter daearyddol
- Nad ydynt yn dymuno cymryd rhan, efallai o ganlyniad i chwalfa mewn perthynas neu ddiffyg cysylltiad
- Oes tystiolaeth bendant y gallai gwrthdaro buddiannau ddigwydd neu nad yw'r person yn gweithio er lles yr unigolyn

Sylwer: os yw ffrindiau a'r teulu'n cymryd rhan, ni ellir gwneud eithriad dim ond am eu bod yn anghytuno â'r dull gweithredu sydd wedi'i gynnig, a byddai un neu ragor o'r meini prawf uchod yn gorfod bod yn berthnasol.

Os yw'r Penderfynwr yn dod i'r penderfyniad ei bod hi'n amhriodol ymgynghori â ffrindiau neu'r teulu, yna cyfrifoldeb y Penderfynwr yw cofnodi'r rheswm pam y mae ef/hi wedi dod i'r penderfyniad hwn; nid cyfrifoldeb y gwasanaeth EAGM yw hyn.

5. Pa un o'r gwasanaethau EAGM sy'n cael ei gyfarwyddo pan mae unigolyn yn byw mewn un ardal ddaearyddol ac sy'n destun penderfyniad sy'n cael ei wneud mewn ardal arall?

Mewn perthynas ag unigolyn sydd angen Triniaeth Feddygol Ddifrifol y corff cyfrifol a ddylai gyfarwyddo'r gwasanaeth EAGM sydd wedi'i gomisiynu yn yr ardal y mae'r unigolyn yn cael triniaeth ynddi.

Mewn perthynas â Newidiadau mewn Lle Byw, mae adran 10.12 y Cod Ymarfer yn dweud hyn: "Y sefydliad sy'n gorfod cyfarwyddo'r EAGM yw'r un sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am y penderfyniad ynghylch symud yr unigolyn. Yr EAGM i'w gyfarwyddo yw'r un sy'n gweithio, lle bynnag y mae'r unigolyn yn digwydd bod pan mae arno/arni angen cael ei gefnogi a'i gynrychioli".

6. Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i'r EAGM ymateb i atgyfeiriad?

Ar ôl atgyfeirio'r cleient at Brif Swyddfa Advocacy Experience, os yw ef/hi'n gymwys i gael gwasanaeth EAGM bydd un o'r EAGM yn cysylltu â'r penderfynwr o fewn 3 diwrnod gwaith.

7. Beth sy'n digwydd os yw'r cleient yn gwrthod cael cefnogaeth gan EAGM?

Un o'r gofynion statudol a restrir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 yw bod unigolyn heb alluedd yn derbyn cefnogaeth EAGM os yw ef/hi'n bodloni'r meini prawf. Felly bydd EAGM yn dal i gymryd rhan yn hyn er i'r eiriolwr gael ei wrthod. Bydd Advocacy Experience yn ceisio cefnogi'r unigolyn a gweld yn union pam nad yw ef/hi am gael cymorth gan y gwasanaeth.

8. A yw'r EAGM yn cael gweld cofnodion ysbyty a gwybodaeth am y cleient?

Ydyw, o dan adran 35(6) y Ddeddf mae'r EAGM yn cael gweld y cofnodion perthnasol. Fe allai hyn gynorthwyo'r EAGM i gael darlun cyflawn o'r unigolyn; bydd hynny hefyd yn eu helpu i gefnogi'r unigolyn trwy gydol y broses benderfynu, a chael gwybod beth yw safbwyntiau, gwerthoedd, dymuniadau a'r hyn sydd orau gan yr unigolyn hwnnw.

9. Pa ddogfennau mae'r EAGM yn eu rhoi i'r penderfynwr?

Mae EAGM yn llunio adroddiad llawn sy'n amlinellu'r wybodaeth atgyfeirio, sylwadau barn y cleient ar y penderfyniad (os y'i cafwyd), y camau gweithredu a gymerwyd gan yr EAGM a'r modd y mae'r EAGM wedi cyflwyno'r wybodaeth a'r casgliadau i'r Penderfynwr, ynghylch y penderfyniad sydd wedi'i gynnig.

Ar ddiwedd yr adroddiad mae adran hefyd i'r Penderfynwr ei llenwi a'i hanfon yn ôl at y gwasanaeth EAGM. Mae'n bwysig i'r Penderfynwr ystyried ac ymateb i'r adroddiad gan yr EAGM.

10. Sut mae'r gwasanaeth EAGM yn cael ei fonitro a'i werthuso?

Yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cymryd yr awenau ynghylch gwerthuso'r EAGM ond cydbartneriaeth comisiynu â PCT yw hyn. Maent yn gyfrifol am fonitro'r gwasanaeth. Ar ben hynny, mae'r Adran Iechyd wedi datblygu cronfa ddata sy'n gadael i ddarparwyr EAGM gofnodi manylion yr holl achosion. Bydd hynny'n darparu gwybodaeth ystadegol sy'n cael ei chyflwyno i'r senedd bob blwyddyn. Mae'r Adran Iechyd wedi ymrwymo i adolygu'r gwasanaeth EAGM ledled y wlad ar ôl y 12 mis cyntaf (Ebrill 2008).

11. Ai gwasanaeth ymateb argyfwng yw'r Gwasanaeth EAGM?

Nage. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o 9-5 o ddydd Llun i Gwener. Bydd Advocacy Experience yn gwneud ei orau glas i fod yn hyblyg ac i ymateb yn gyflym os oes angen; fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni wyddom faint o alw sydd am y gwasanaeth. Felly mae'n bur debyg y bydd pawb yn dysgu gam fesul cam, o ran rhoi cyfarwyddyd a darparu'r gwasanaeth. Fe allai'r cyfraddau ymateb i'r atgyfeiriadau, newid yn y dyfodol.

12. Pa hyfforddiant mae'r EAGM wedi'i gael?

Mae'r holl EAGM yn gorfod cwblhau cwrs hyfforddi sy'n para 4 diwrnod, ynghylch swyddogaeth yr EAGM mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae gan yr EAGM yrfaoedd amrywiol dros ben; yn eu plith mae profiad ym maes eiriolaeth, gwaith cymdeithasol a swyddi perthnasol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oes unrhyw gymhwyster ffurfiol i Eiriolwyr ar hyn o bryd; fodd bynnag mae cymhwyster cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, a dylai ddechrau'n swyddogol yn 2008.

13. Ble allaf i gael rhagor o wybodaeth am yr EAGM a'r Gwasanaeth EAGM?

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant yn lleol ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol, yn cynnwys y Gwasanaeth EAGM. Byddwch cystal â chysylltu â'ch rheolwr neu Swyddog Arweiniol Gweithredu'r EAGM yn eich ALl, er mwyn cael rhagor o wybodaeth.